

**COFNODION CYFARFOD Y GRŴP LLYWIO BUDDSODDI RHANBARTHOL YNG
NGHYMRU**

Dyddiad: Dydd Iau 3 Medi 2020

Amser: 1.30 – 4.00 p.m.

Atodiad A: Mynychwyr

1. Croeso (1:30 – 1:35)

- Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb, gan ddiolch iddynt am eu presenoldeb.
- Nododd y Cadeirydd mai diben y cyfarfod oedd i'r Aelodau allu clywed yn uniongyrchol gan yr OECD ar ganfyddiadau ac argymhellion ei adroddiad terfynol cyn lansio'r adroddiad yn ffurfiol ar 17 Medi, a chroesawodd Varinia Michalun o'r OECD i'r cyfarfod.

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol (1:35-1.40)

- Nododd y Cadeirydd gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau ar y cofnodion drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru.
- Ni chafwyd unrhyw sylwadau a chliriwyd y cofnodion i'w cyhoeddi.

3. Diweddariad Cyffredinol (1:40 – 2:00)

- Gofynnodd y Cadeirydd i Rachel Garside Jones (RGJ) roi trosolwg ar y datblygiadau diweddaraf, gan gynnwys gwaith y Gweithgor Gweinidogol (MWG) newydd ac unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, ac eglurder ganddi ar y mater hwnnw.
- Diweddarodd RGJ yr Aelodau y bu dau gyfarfod MWG ym mis Awst ac y byddai dau arall yn cael eu cynnal ym mis Medi. Diben y MWG oedd darparu cyfeiriad Gweinidogol ar y cyd ar strwythur a natur cyllid Ewropeaidd newydd er mwyn helpu i lywio papur Cabinet ar y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol a oedd i'w gyflwyno ganol mis Hydref.
- Trafododd cyfarfod cyntaf y MWG lefel y datganoli ar gyfer buddsoddi rhanbarthol, gyda Gweinidogion yn awyddus iddo fod ar y lefel briodol isaf fel bod y broses o wneud penderfyniadau yn nes at y dinesydd. Penderfynodd y MWG mai'r CJsCs sy'n cael eu sefydlu o dan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau sydd gyda'r Senedd ar hyn o bryd fyddai'r prif fecanwaith ar gyfer gwneud

penderfyniadau rhanbarthol. Byddai hyn yn amodol ar CJs yn sefydlu'r partneriaethau gwneud penderfyniadau ehangach angenrheidiol gyda'n rhanddeiliaid allweddol i adeiladu ar waith partneriaeth o ran cyflawni rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Byddai hefyd yn gofyn am gyfnod pontio o ystyried yr amserlenni heriol ar gyfer sefydlu a meithrin gallu ym mhob rhanbarth. Canolbwyntiodd ail gyfarfod y MWG ar integreiddio cyllid gyda dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae angen rhagor o waith a thystiolaeth ar sut y gallai dyraniadau rhanbarthol weithio. Byddwn yn gweithio'n agos gyda CLILC ar sut i ddatblygu hyn, ond mae croeso i randdeiliaid eraill gyfrannu eu safbwyntiau. Bydd y ddau gyfarfod MWG sy'n weddill yn trafod y trefniadau pontio sydd eu hangen i ddarparu parhad o ran cyllid a strwythurau a chaniatáu amser i sefydlu'r CJs.

- O ran datblygiadau Llywodraeth y DU, cyfarfu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd â Gweinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon McKee a Murphy ar 1 Medi i drafod pryderon cyffredin ar SPF y DU cyn eu cyfarfodydd dwyochrog ar wahân gyda'r Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Simon Clarke AS sy'n gyfrifol am yr SPF ym mis Medi. Y gobaith oedd y byddai'r cyfarfod dwyochrog hwn yn rhoi eglurder ar y SPF ac y byddai'n cychwyn y lefel ymgysylltu a oedd yn ofynnol cyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym mis Tachwedd, lle disgwyliid cyhoeddiad ar yr SPF.
- Roedd sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau yn cynnwys:
 - Cynigiodd CLILC rannu adborth o gyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos nesaf gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Gweinidog y DU Simon Clarke AS.
 - Nododd CLILC ei bod yn hapus i helpu i lywio a chyfrannu at drafodaethau ar ddyraniadau cyllid rhanbarthol yn y dyfodol, ond pwysleisiodd y dylai'r gwaith hwn hefyd gynnwys trafodaethau ehangach gyda'r partneriaid rhanbarthol perthnasol cyn i Weinidogion gytuno arno.
 - Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi gan Lywodraeth y DU oherwydd y diffyg gwariant ar ymchwil, datblygu ac arloesi a'r gystadleuaeth gynyddol am arian, gyda Llundain a Manceinion, er enghraifft, yn llwyddiannus iawn. Nid yr SPF yw'r unig gronfa yn y DU, ac mae'n bwysig bod gennym ddull gweithredu unedig / ledled Cymru, ac rydym yn ystyried y materion ehangach sy'n effeithio ar gysylltiadau Whitehall ac ymchwil, datblygu ac arloesi i helpu i sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o gyllid ymchwil, datblygu ac arloesi.
- Cydnabu RGJ fod y materion yn ymwneud ag ymchwil, datblygu ac arloesi yn ehangach na'r UKSPF, ond y byddai safbwyntiau'n cael eu bwydo'n ôl i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar ymchwil, datblygu ac arloesi i'w codi gyda Gweinidogion.
- Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu sylwadau.

4. OECD (2:00 – 3.50)

- Nododd y Cadeirydd fod yr Aelodau wedi derbyn copi o adroddiad terfynol (bron) yr OECD yr wythnos diwethaf. Gofynnodd y Cadeirydd i Varinia Michalun o'r OECD gyflwyno'r adroddiad a rhoi sylw i'w ganfyddiadau a'i argymhellion allweddol.
- Codwyd amryw o faterion gan yr Aelodau a'r OECD, gan gynnwys, er enghraifft:
 - Croesawodd yr Aelodau y cyfle i gyfrannu at waith yr OECD a'r adroddiad, a gofynnodd am yr amserlenni ar gyfer gweithredu argymhellion yr OECD.
 - Pwysigrwydd symleiddio neu resymoli strategaethau, cynlluniau, byrddau a phwyllgorau, yn hytrach nag ychwanegu mwy o strwythurau / haenau.
 - Mae sawl diffiniad o gyd-gynhyrchu / cyd-greu, ac mae gwahaniaeth pwysig rhwng rhanbarthiaeth a rhanbartholi. Dylai'r rhanbarth fod dan berchnogaeth ar y cyd, yn hytrach na chael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.
 - Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae'r rhan fwyaf o gyfrifoldebau'n cael eu rhannu ymhlith lefelau llywodraeth. Nid yw priodoli i lefel ranbarthol yn golygu nad oes gan y lefel leol weithgarwch ynddo. Rhaid i'r cyfrifoldeb, y tasgau a'r disgwyliadau ar bob lefel gael eu sefydlu a'u cytuno'n glir fel bod sefydliadau'n gwybod beth maent yn atebol amdano a beth mae angen iddynt ei gyflawni.
 - Un sgil allweddol ar gyfer datblygu rhanbarthol yw dysgu drwy wneud, gan roi mwy o gyfle i gyrff dyfu eu sgiliau a'u harbenigedd, gan ryddhau rhywfaint o reolaeth, ond dylai gyrff lleol fod yn realistig hefyd ynglŷn â'r hyn y gallant ei gyflawni. Nodwyd Gwlad yr Iâ a'r Ffindir fel enghreifftiau o ranbarthau'n cael cyfle i ddatblygu eu cynlluniau ar sail contract. Roedd treialu prosiectau yn ffordd dda o brofi pethau a dysgu drwy wneud, gan gynyddu capasiti a sgiliau rhanbarth o ganlyniad.
 - Mae'n bwysig i bob parti ddeall a chytuno ar lefelau cyd-gynhyrchu er mwyn osgoi'r risg o ddryswch ynglŷn â'r hyn y bydd yn ei olygu'n ymarferol. Hefyd, dylai pobl berthnasol fod yn rhan o'r gwaith cyd-gynhyrchu yn gynnar, nid dim ond tua'r diwedd.
 - Nid strwythurau neu bolisiau yw'r unig fater. Pwysigrwydd ansawdd llywodraethu, yr hawl i bobl arwain, gyda chyfrifoldeb ar bob lefel.
 - Gallai datblygu gweledigaeth hirdymor a all wrthsefyll cylchoedd gwleidyddol o sut mae cenedl am edrych 10-20 mlynedd i'r dyfodol fod o fudd i bennu strategaeth a pholisi rhanbarthol effeithiol. Un enghraifft yw uwchgynhadledd Awstralia 2020, a ddatblygodd weledigaeth yn

2000 ar gyfer 2020, gyda llawer o randdeiliaid yn cyfrannu at y weledigaeth. Enghraifft arall yw Bilbao, a gyd-gynhyrchodd weledigaeth gyda phob plaid wleidyddol, ac a gytunwyd gan gymunedau. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gallu Cymru i ddewis ei model dymunol ei hun braidd yn gyfyngedig oherwydd rôl Llywodraeth y DU mewn llawer o ardaloedd economaidd-gymdeithasol.

- Diolchodd y Cadeirydd i Varinia Michalun am y cyflwyniad, a nododd y bydd yr adroddiad yn cael ei lansio'n ffurfiol ar 17 Medi fel rhan o ddigwyddiad rhithwir gyda rhanddeiliaid. Nododd y bydd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru yn cyflwyno'r prif areithiau yn y digwyddiadau hyn. Yn dilyn cyngor y Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, cynhelir pedair gweminar ranbarthol rhwng 28 Medi ac 1 Hydref i helpu i ddechrau sgysiau o fewn y rhanbarthau ar eu cryfderau ac i ddeall yr heriau y maent yn eu hwynebu. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhellion gyda rhanddeiliaid dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, gan gydnabod bod adroddiad yr OECD yn tynnu sylw at gamau gweithredu uniongyrchol a thymor hwy mewn arferion datblygu rhanbarthol a buddsoddi cyhoeddus.

5. Unrhyw fater arall a sylwadau i gloi (3:50 – 4.00)

- Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Grŵp gyfarfod nesaf ar ôl cyfarfod y Cabinet ganol mis Hydref fel y gellid diweddarau'r Aelodau ar ganlyniad y drafodaeth honno gan y Cabinet a'r camau nesaf. Bydd nodyn dyddiadur ar gyfer cyfarfod ar-lein yn cael ei gyhoeddi pan fydd dyddiad cyfarfod y Cabinet yn cael ei gadarnhau.
- Ni chodwyd unrhyw fater arall.
- Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu presenoldeb, a daeth â'r cyfarfod i ben.

RHESTR O FYNYCHWYR

Cadeirydd

Huw Irranca-Davies AS

OECD

Varinia Michalun

Aelodau

Sefydliad	Enw a rôl
Colegau Cymru	Lisa Thomas, Pennaeth Y Coleg, Merthyr
CLILC	Lowri Gwilym, Rheolwr – Ewrop ac Adfywio, Adfywio a'r Amgylchedd
Grahame Guilford (Annibynnol)	Grahame Guilford, Perchennog, Grahame Guilford and Company Ltd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)	Matthew Brown, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Buddsoddiadau
Yr Athro Kevin Morgan (Annibynnol)	Yr Athro Kevin Morgan, Llywodraethu a Datblygu, Prifysgol Caerdydd
TUC Cymru	Nisreen Mansein, Swyddog Polisi
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Olivia Jones, Pennaeth Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	Frank Holmes, Cadeirydd
CBI Cymru	Nick Speed, Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus, BT
Cyfoeth Naturiol Cymru	Alan Hunt, Uwch Gyngorydd Arbenigol
Prifysgolion Cymru	Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	Ashley Rogers, Cyfarwyddwr, Gill and Shaw
Partneriaeth De-ddwyrain Cymru	Kellie Beirne, Cyfarwyddwr, Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	Ben Cottam, Pennaeth Materion Allanol
Partneriaeth De-orllewin Cymru	Y Cyngorydd David Simpson, Arweinydd, Cyngor Sir Benfro
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Cadeirydd

Canolfan Cydweithredol Cymru	Glenn Bowen, Cyfarwyddwr Rhaglen
Partneriaeth Gogledd Cymru	Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Rhwydwaith Gwledig Cymru	Eirlys Lloyd, Rheolwr Partneriaethau Cymunedol/Canolfan Bwyd Cymru, Cyngor Ceredigion
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	Y Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd, Cyngor Powys

Mynychwyr Llywodraeth Cymru

Enw	Rôl ac adran
Peter Ryland	Prif Weithredwr, WEFO
Rachel Garside Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr – Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Rhodri Griffiths	Prif Swyddog Rhanbarthol, y Canolbarth a'r De-orllewin – Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
David Rosser	Prif Swyddog Rhanbarthol, y De-ddwyrain – Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Gwenllian Roberts	Prif Swyddog Rhanbarthol, y Gogledd – Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Alison Sandford	Pennaeth Gwaith Partneriaeth, WEFO
Sheilah Seymour	Pennaeth Ymchwil a Dadansoddi, WEFO
Geraint Green	Pennaeth Rheoli Rhaglenni (ESF ac ETC), WEFO
Nadine Young	Pennaeth Polisi Cyflogadwyedd, yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Anton Orzel	Pennaeth Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Ceri Edwards	Uwch Reolwr Polisi, WEFO
Tom Brown	Uwch Reolwr Polisi, WEFO
Mike Griffiths	Uwch Gynghorydd Cyflawni, WEFO

Justine George	Uwch Reolwr Ymyriadau Economaidd – Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Bryn Richards	Pennaeth Cynllunio Rhanbarthol, Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Jonathan Fortune	Uwch reolwr Strategaeth - Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Simon Tew	Pennaeth Rheoli Risg a Pharodrwydd – Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Ashley Davis	Swyddog Polisi, WEFO